

****DYLAI CYNGHORAU LWYTHO'R SET HON I LAWYR O WEFAN LLYWODRAETH
CYMRU A'I HADDASU YN ÔL YR ANGEN****

IS-DDEDDFAU MODEL - SET 5

[Enw'r Cyngor]

IS-DDEDDFAU AR GYFER PROMENADAU

TREFN YR IS-DDEDDFAU

1. Dehongli
 2. [Cymhwyso]
 3. [Cymhwyso]
 4. [Cymhwyso]
 5. Beicio
 6. Cerbydau modur
 7. Masnachu
 8. Sglefrfyrddio, etc [- gwahardd sglefrfyrddio, etc. [heblaw mewn rhannau penodol o'r promenâd]]
 9. Sglefrfyrddio, etc [- gwahardd sglefrfyrddio mewn ffordd beryglus neu ffordd sy'n achosi niwsans, etc]
 10. Barcutiaid a bygis barcud
 11. Diogelu gwelyau blodau a phlanhigion
 12. Codi adeiladweithiau heb awdurdod
 13. Symud arwyddion ac adeiladwaith i ffwrdd
 14. Ymyrryd ag offer achub bywyd
 15. Rhwystro
 16. Arbedion
 17. Y Gosb
 18. Dirymu
- Yr Atodlen

Is-ddeddfau wedi eu gwneud o dan adran 83 o Ddeddf Diwygio Deddfau Iechyd y Cyhoedd 1907 gan [rhowch enw'r Cyngor] er mwyn atal perygl, rhwystr, neu aflonyddwch i bobl sy'n defnyddio'r rhodfeydd glan môr neu'r promenadau.

Dehongli'n gyffredinol

1. Yn yr is-ddeddfau hyn:

[Dim ond y termau a gaiff eu defnyddio yn yr is-ddeddfau model y mae'r Cyngor yn bwriadu eu mabwysiadu y dylid eu dewis o'r rhestr ganlynol]

ystyr "cerbyd modur" yw cerbyd heblaw cerbyd pobl anabl sy'n cael ei yrru'n fecanyddol;

ystyr "cerbyd pobl anabl" yw cerbyd, p'un a yw'n cael ei yrru'n fecanyddol ai peidio,

(a) nad yw'n pwysu mwy na 150 o gilogramau, pan nad yw'n cario llwyth,

(b) nad yw'n fwy na 0.85 o fetrau o led, ac

a gafodd ei adeiladu neu ei addasu i gario unigolyn sy'n dioddef o anabledd, ac sy'n cael ei ddefnyddio gan y fath unigolyn yn unig;

ystyr "cerbyd sy'n cael ei yrru â'i bŵer ei hun" yw cerbyd heblaw beic, cerbyd pobl anabl neu bram, sy'n cael ei yrru gan bwysau neu bŵer un neu ragor o bobl yn sglefrio, sleidio neu'n reidio ar y cerbyd neu gan un neu ragor o bobl eraill yn tynnu neu'n gwthio'r cerbyd;

ystyr "y Cyngor" yw [rhowch enw'r Cyngor];

ystyr "dynodi", o ran llwybr neu ardal, yw gosod o'r neilltu at ddiben penodedig. Rhaid nodi'r llwybr neu'r ardal a'r diben mewn hysbysiadau sy'n cael eu gosod mewn lle amlwg;

ystyr "promenâd" yw [enw'r promenâd/ enw pob un o'r rhodfeydd glan môr a'r promenadau sy'n cael eu disgrifio yn yr Atodlen i'r is-ddeddfau hyn].

Cymhwys

Dylai cynghorau fabwysiadu UN o is-ddeddfau model 2, 3 a 4

Mae is-ddeddfau'n gymwys i bob promenâd yn yr ardal

2. Mae'r is-ddeddfau hyn yn gymwys i bob promenâd o fewn [Sir/Cyngor Bwrdeistref Sirol [rhowch enw'r ardal awdurdod lleol].

Dim ond i un promenâd y mae'r is-ddeddfau'n gymwys [neu i un rhan o bromenâd]

3. Mae'r is-ddeddfau hyn yn gymwys i [rhowch enw'r promenâd neu ddisgrifiad ohono] [rhwng disgrifiwch yr ardal gan gyfeirio at dirnodau ffisegol].

Mae'r is-ddeddfau'n gymwys i sawl promenâd

4. Mae'r is-ddeddfau hyn yn gymwys i'r promenadau a'r rhodfeydd glan môr sy'n cael eu rhestru yn yr Atodlen

Beicio

5. (1) Ni chaiff neb, heb esgus rhesymol, reidio beic ar y promenâd heblaw pan fydd hawl tramwy i feiciau [*neu lwybr dynodedig i feiciau*].
- (2) Pan fydd beicio'n cael ei ganiatáu ar unrhyw ran o'r promenâd gan is-ddeddf 5(1) ni chaiff neb feicio [rhwng *rhowch yr awr a rhowch yr awr*] [o *rhowch y dyddiadau*] fel sydd wedi ei nodi mewn hysbysiadau sydd wedi cael eu gosod mewn lleoedd amlwg ar y promenâd.

Cerbydau modur

6. Ni chaiff neb heb esgus rhesymol yrru cerbyd modur na dod ag ef neu ddod â threlar ar y promenâd heblaw —
- (a) ar unrhyw ran o'r promenâd lle y mae hawl tramwy i'r dosbarth hwnnw o gerbyd; neu
- (b) er mwyn cael mynd yn uniongyrchol at unrhyw lithrfa sydd wedi ei gosod o'r neilltu gan y Cyngor i lansio unrhyw gwch neu long neu ddod â hi i'r lan.

Masnachu

Niwsans neu rwystr sy'n cael ei achosi drwy werthu nwyddau neu dowtio

7. Ni chaiff neb —
- (a) gwerthu na phedlera unrhyw nwydd, bwyd na diod;
- (b) hysbysebu na cheisio cwstwm i unrhyw wasanaeth; neu
- (c) dosbarthu hysbyslenni, cylchlythyrau neu hysbysebion,
- mewn ffordd a all achosi rhwystr neu aflonyddwch i unrhyw un ar y promenâd.

Sglefrfyrdio, etc

Gwahardd sglefrfyrdio [heblaw mewn rhannau penodol o'r promenâd]

8. Ni chaiff neb sglefrio, sleidio na reidio ar sglefrolwyr, sglefrfyrdau na cherbydau eraill sy'n symud o dan eu pŵer eu hunain ar y promenâd [*heblaw mewn man dynodedig*].

Gwahardd defnyddio sglefrfyrddau mewn ffordd beryglus neu ffordd sy'n achosi niwsans

9. Ni chaiff neb sglefrio, sleidio na reidio ar sglefrolwyr, sglefrfyrddau na cherbydau eraill sy'n symud o dan eu pŵer eu hunain ar y promenâd mewn ffordd a all achosi perygl neu mewn ffordd a all roi sail resymol i bobl eraill sy'n defnyddio'r promenâd honni bod y gweithgaredd hwnnw yn aflonyddu arnynt.

Barcutiaid a bygis barcud

10. Ni chaiff neb hedfan unrhyw farcud na reidio na gyrru unrhyw gerbyd sy'n symud o dan bŵer barcud ar y promenâd mewn ffordd a all achosi perygl neu mewn ffordd a all roi sail resymol i bobl eraill sy'n defnyddio'r promenâd honni bod y gweithgaredd hwnnw yn aflonyddu arnynt.

Diogelu gwelyau blodau a phlanhigion

11. Ni chaiff neb gerdded ar y canlynol na reidio drostynt—
- (a) unrhyw wely blodau, llwyn neu blanhigyn;
 - (b) unrhyw dir sydd yn y broses o gael ei baratoi'n wely blodau neu i dyfu unrhyw goeden, llwyn neu blanhigyn; neu
 - (c) unrhyw ran o'r promenâd sy'n cael ei roi o'r neilltu gan y Cyngor ar gyfer ei dywarchu o'r newydd neu at ddibenion tirweddu eraill ac y mae hysbysiad yn nodi hynny wedi ei roi mewn lle amlwg.

Codi adeiladweithiau heb awdurdod

12. Ni chaiff neb, heb gydsyniad y Cyngor, godi unrhyw rwystr, postyn, reid na siglen, adeilad nac unrhyw adeiladwaith arall ar y promenâd.

Symud arwyddion ac adeiladweithiau

13. Ni chaiff neb, heb esgus rhesymol, symud i fwrdd na newid lle unrhyw rwystr, postyn na sedd nac unrhyw ran o unrhyw adeiladwaith nac addurn nac unrhyw hysbysiad na baner sy'n cael eu harddangos ar y promenâd gan neu ar ran y Cyngor neu unrhyw awdurdod cymwys arall.

Ymyrryd ag offer achub bywyd

14. Ni chaiff neb, heblaw mewn achos brys, symud i fwrdd na newid lle unrhyw offer achub bywyd sy'n cael ei ddarparu ar y promenâd gan neu ar ran y Cyngor neu unrhyw awdurdod cymwys arall.

Rhwystro

15. Ni chaiff neb wneud y canlynol ar y promenâd—
- (a) rhwystro unrhyw swyddog o'r Cyngor wrth iddynt gyflawni eu dyletswyddau yn briodol;
 - (b) rhwystro unrhyw un sy'n cyflawni gweithred sy'n angenrheidiol er mwyn cyflawni unrhyw gontract â'r Cyngor yn briodol.

Arbedion

16. Nid yw'n dramgwydd o dan yr is-ddeddfau hyn i unrhyw swyddog o'r Cyngor wneud unrhyw beth sy'n angenrheidiol i gyflawni ei ddyletswydd yn briodol neu i unrhyw un sy'n gweithredu'n unol â chontract â'r Cyngor wneud unrhyw beth sy'n angenrheidiol i gyflawni'r contract hwnnw'n briodol.

Y Gosb

17. Mae unrhyw un sy'n tramgwyddo yn erbyn unrhyw un o'r is-ddeddfau hyn yn agored ar gollfarn ddiannod i ddirwy nad yw'n uwch na lefel 2 ar y raddfa safonol.

Dirymu

18. Mae'r is-ddeddfau sy'n ymwneud â'r promenâd a gafodd eu gwneud gan [*rhowch enw'r cyngor*] ar [*rhowch y dyddiad*] ac a gafodd eu cadarnhau gan [*rhowch enw'r awdurdod a wnaeth gadarnhau*] ar [*rhowch y dyddiad cadarnhau*] wedi eu dirymu.

YR ATODLEN

Y canlynol yw'r promenadau a'r rhodfeydd glan môr y cyfeirir atynt yn is-ddeddf [4]: